

CABINET CYNGOR GWYNED

Dyddiad y Cyfarfod:	17 Rhagfyr 2019
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Swyddog Cyswllt:	Iwan Evans - Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, a Siôn Huws - Uwch Gyfreithiwr
Rhif ffôn cyswllt:	32168
Teitl yr eitem:	Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2018/19

1. Y penderfyniad a geisir

1.1 I dderbyn Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 20018/19.

2. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad:

2.1 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi gofyn i'w Lythyr Blynyddol gael ei gyflwyno i'r Cabinet i gynorthwyo aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.

3. Cefndir

3.1 Bydd aelodau'n ymwybodol yr adroddir yn flynyddol i'r Cabinet ar gwynion, ym mis Gorffennaf. I gyfleu darlun cyflawn o'r sefyllfa ar draws yr awdurdod, adroddir ar y Drefn Gwynion Gorfforaethol, yn ogystal â chyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gwynion o dan y drefn gwynion statudol (a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu Gofal hefyd). Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn. I sicrhau bod y wybodaeth a'r negeseuon yn gyfredol adroddir mor fuan ag sydd yn ymarferol yn y flwyddyn ariannol.

3.2 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yng Ngorffennaf eleni yn cynnwys ystyriaeth o'r cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon, gyda'r ffigyrau wedi eu gwirio gyda'i swyddfa. Nid oedd Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gael bryd hynny ond mae'r materion sydd ynddo eisoes wedi eu hystyried gan y Cabinet.

3.3 Mmae'r Ombwdsmon yn gofyn i'w Lythyr Blynyddol gael ei gyflwyno i'r Cabinet gan ofyn am gael gwybod beth yw'r canlyniad ystyriaethau'r Cyngor a beth yw ei gamau arfaethedig ar gyfer y materion a godir ganddo.

3.4 Mae'r llythyr felly wedi ei atodi i'r adroddiad hwn ac fe'i cyflwynir i sylw'r Cabinet.

3.5 I'r dyfodol byddwn yn ystyried os oes modd cyflwyno'r pecyn adroddiadau fel un, gan gynnwys y llythyr blynyddol gan weithio i amserlen sydd yn sicrhau fod yr wybodaeth yn ddigon amserol i ddysgu unrhyw wersi.

4. Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn argymhell y Penderfyniad:

Swyddog Monitro – Paratowyd yr adroddiad gan y Gwasanaeth Cyfreithiol

Pennaeth Cyllid - Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol